15/07/21

*Annwyl Riant / Warcheidwad / Ddisgybl,*

Wrth i ni gyrraedd diwedd blwyddyn ysgol eithriadol, hoffem roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ein gobeithion a'n bwriadau ar gyfer mis Medi a'r flwyddyn academaidd newydd. Er na allwn ddilyn ein trefniadau cyn Covid, hoffem adlewyrchu rhywfaint o'r hyn sy'n digwydd yn y gymdeithas ehangach a dechrau codi rhai o'r mesurau y bu'n rhaid i ni eu rhoi ar waith. Gallai'r rhain newid ar unrhyw adeg.

## PETHAU A FYDD YN AROS YR UN FATH:

- ✓ Y system unffordd a'r defnydd o'r ddwy gât naill ochr i'r brif gât fel yr unig bwynt mynediad i safle'r ysgol. Helpwch ni i gyfyngu ar nifer y bobl ar y safle drwy sicrhau mai dim ond un rhiant/gwarcheidwad/aelod o'r teulu sy'n gollwng yn ystod y bore ac yn codi yn ystod amser mynd adre'.
- ✓ Bydd pob disgybl Meithrin yn defnyddio'r gatiau dwbl y tu ôl i adeilad y Feithrin wrth gyrraedd ac ar ddiwedd eu sesiwn.
- ✓ Bydd disgyblion yn aros yn eu grwpiau cyswllt ar gyfer dysgu.
- ✓ Dylai'r disgyblion ddod i'r ysgol yn eu gwisg Ymarfer Corff ar y diwrnodau mae ganddynt wersi Ymarfer Corff.
- ✓ Rhieni/garcheidwaid i wisgo masg ar dir yr ysgol os nad ydynt wedi eithrio.
- ✓ Ymbellhau cymdeithasol gan bob rhiant/gwarcheidwaid wrth ollwng/casglu eu plentyn/plant a dim ond un rhiant/gwarcheidwad i bob teulu.
- ✓ **Ni ddylai** disgyblion fynychu'r ysgol os ydynt yn arddangos unrhyw un o'r rhestr estynedig o symptomau posibl sy'n cynnwys: symptomau tebyg i ffliw, cur pen parhaus, trwyn sy'n rhedeg neu drwyn wedi'i rwystro, tisian parhaus, dolur gwddf a/neu golli llais, diffyg anadl.
- ✓ Bydd bron pob gohebiaeth yn cael ei hanfon drwy Schoop. Sicrhewch eich bod wedi lawrlwytho'r ap a newid y gosodiadau i ddilyn y dosbarth/dosbarthiadau perthnasol. Gellir dod o hyd i fanylion am sut i gael Schoop yma:
- ✓ https://www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk/docs/associated/file_6849_1597849852.pdf
- ✓ Bydd gwefan gwaith cartref yr ysgol yn parhau a bydd y ddolen berthnasol yn cael ei hanfon allan ym mis Medi.

## PETHAU A FYDD YN NEWID:

- ➢ Cinio ysgol – bydd y stondin salad a'r opsiynau poeth yn ailddechrau. Byddant yn parhau i gael eu gweini yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 am y tymor cyntaf. Bydd disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dechrau bwyta eu cinio yn neuadd yr ysgol. Ni fydd yr opsiwn 'grab bag' ar gael mwyach.
- ➢ Ni fydd yr ysgol yn cau'n gynnar ar ddydd Gwener mwyach gan y bydd rhai aelodau o staff yn croesi grwpiau cyswllt i alluogi athrawon i gael eu hamser CPA drwy gydol yr wythnos. Byddwn yn ceisio cyfyngu cymaint â phosibl ar hyn.
- ➢ Bydd oriau ysgol yn cael eu diwygio. Bydd angen i ddisgyblion gyrraedd rhwng **8:45am** a **8:55am** – i sicrhau bod pob disgybl yn y dosbarth erbyn 9:00yb. Dylid casglu **teuluoedd** o'r iard ganol am **3:15pm**. **Cesglir pob disgybl nad oes ganddo frawd neu chwaer** yn yr ysgol am **3:25pm**. Dylid casglu disgyblion ym Mlynyddoedd 3-6 o'r iard ganol a dylid casglu'r disgyblion hynny yn y Dosbarthiadau Derbyn i Flwyddyn 2 o'r ardaloedd dynodedig ym mlaen yr ysgol. Dylai pob rhiant/gwarcheidwaid barhau i adael safle'r ysgol drwy'r gât wrth ardd yr ysgol/y groesfan ar ôl casglu eu plant.
- ➢ Bydd rhai gwasanaethau yn ailgychwyn yn y neuadd. Bydd y disgyblion yn eistedd yn eu dosbarthiadau gyda phellter priodol rhwng y dosbarthiadau. **Ni fydd** gwasanaethau ysgol gyfan yn cael eu cynnal i gychwyn.
- ➢ Bydd clybiau allgyrsiol sy'n cael eu cynnal yn yr awyr agored yn ailddechrau ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2 a byddant yn cael eu cynnal mewn blociau o chwe wythnos (bydd mwy o fanylion yn dilyn ym mis Medi).

**DYDDADAU PWYSIG:**

Bydd yr ysgol ar gau i ddisgyblion ar ddydd Iau, 2il o Fedi a dydd Gwener, 3ydd o Fedi gan eu bod yn ddiwrnodau hyfforddiant i staff. Bydd POB disgybl yn dychwelyd i'r ysgol ar y 6ed o Fedi ac edrychwn ymlaen at groesawu'r rhai sy'n ymuno â ni yn ein dosbarthiadau Meithrin a Derbyn hefyd. Bydd diwrnod hyfforddiant staff hefyd ar ddydd Llun, 1af o Dachwedd 2021.

Fedraf ddim pwysleisio digon pa mor ddiolchgar ydwyf fel Pennaeth i gael tîm o staff mor weithgar a thrugarog. Maent wedi gweithio'n ddiflino drwy gydol y flwyddyn. Diolch yn fawr iawn i chi gyd.

Rhaid i bob un ohonom gydnabod bod y sefyllfa COVID yn parhau i fod yn un ansicr ac efallai y bydd angen cyhoeddi diweddariadau pellach yn ystod gwyliau'r haf. Diolch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth barhaus. Rydym yn gobeithio'n fawr y bydd y flwyddyn academaidd nesaf yn un esmwyth a bod cymuned ein hysgol yn parhau i gadw mor ddiogel ac iach â phosibl.

Ein dymuniadau gorau i chi i gyd.

*Yn gywir*

*Miss Evans a holl staff Ysgol Gymraeg Cwmbrân*